**Mae'r pecyn enwebu hwn at ddefnydd ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad cyngor cymuned yng Nghymru Rhaid cyflwyno'r papurau canlynol i'r Swyddog Canlyniadau â llaw neu'n electronig:**

1a: Papur enwebu

1b: Ffurflen cyfeiriad cartref

**Gall y papurau canlynol gael eu cyflwyno â llaw, yn electronig neu drwy'r post:**

2: Tystysgrif awdurdodi

3: Cais am arwyddlun plaid

4: Hysbysiad o asiant etholiad

Bydd yr hysbysiad etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau yn nodi'r lleoliad a'r amseroedd y gellir cyflwyno papurau enwebu â llaw a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu'n electronig.

Os byddwch yn cyflwyno eich papur enwebu â llaw, rhaid i chi gyflwyno'r **fersiwn wreiddiol a lofnodwyd** ar gyfer pob papur a gwblhawyd.

**Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol. Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithio arnoch chi.

Dylech dynnu sylw'r sawl sy'n tystio eich enwebiad at ba ddibenion y caiff y wybodaeth ei defnyddio, a sut y caiff data personol eu prosesu a'u cadw'n ddiogel. Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Dylech hefyd esbonio y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Swyddog Canlyniadau. I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu data a phrosesu data, dylech gyfeirio at hysbysiad preifatrwydd y Swyddog Canlyniadau ar ei wefan.

| CL | Etholiad llywodraeth leol | Rhestr wirio ar gyfer ymgeiswyr |
|---|---|---|

Bwriedir i'r rhestr wirio hon helpu ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad llywodraeth leol ar gyfer ardal gymunedol[1] i baratoi i gyflwyno eu henwebiad, a dylid ei darllen ochr yn ochr â Chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid y Comisiwn Etholiadol.

| Tasg | Ticiwch |
|---|---|
| Ffurflen enwebu (pob ymgeisydd) | |
| **Adran 2 – Manylion personol yr ymgeisydd** | |
| Ychwanegwch eich enw llawn – cyfenw yn y blwch cyntaf a phob enw arall yn yr ail | |
| Dewisol – Defnyddiwch y blychau enw a ddefnyddir yn gyffredin os cewch eich adnabod gan enw sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'ch enw gwirioneddol a'ch bod yn awyddus iddo gael ei ddefnyddio yn lle eich enw llawn. Os hoffech iddo ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. | |
| Ychwanegwch eich dyddiad geni llawn | |
| **Adran 3 – Disgrifiad** | |
| Disgrifiad – Gall ymgeiswyr plaid ddefnyddio enw neu ddisgrifiad plaid sy'n debygol o beri i'r etholwr ei gysylltu ag enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid, enw neu ddisgrifiad plaid a gofrestrwyd â'r Comisiwn Etholiadol ac a gefnogir gan dystysgrif awdurdodi gan y blaid honno;<br><br>Os nad yw enw plaid gofrestredig yn cynnwys 'Cymru' neu 'Wales' neu 'Cymreig' neu 'Welsh', yna caniateir ychwanegu 'Cymru' neu 'Wales' neu 'Cymreig' neu 'Welsh' at enw'r blaid gofrestredig yn y blwch disgrifiad.<br><br>Gall eraill ddefnyddio 'Annibynnol/Independent' neu adael hwn yn wag. Bydd beth bynnag rydych yn ei roi yn y blwch yn ymddangos fel eich disgrifiad ar y papur pleidleisio | |
| **Adran 4 – Datganiad ymgeisydd o aelodaeth plaid** | |
| Nodwch a fuoch yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad | |
| Ychwanegwch enw pob plaid wleidyddol gofrestredig rydych wedi bod yn aelod ohoni a dyddiadau'r aelodaeth yn ystod y cyfnod perthnasol – y cyfnod perthnasol yw'r 12 mis cyn y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad. Fodd bynnag, dylech ond ychwanegu os ydych wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol heblaw am yr un rydych wedi darparu disgrifiad ohoni ar eich papur enwebu. | |
| **Adran 5 – Datganiad** | |
| Dylech lofnodi a dyddio'r ddogfen | |
| Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys a pheidio â bod angen caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi, neu fod â chaniatâd penagored i aros. Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ar y dyddiad y byddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. | |
| Rhaid i chi fodloni o leiaf un o'r amodau cymhwyso a restrir (a, b, c neu d). Nodwch pa un | |

[1]Ni ddylid defnyddio hon ar gyfer etholiadau prif ardaloedd. Mae ffurflenni a chanllawiau ar wahân ar gael.

| | |
|---|---|
| neu fwy o'r paragraffau (a) i (d) sy'n gymwys drwy roi tic wrth eu hymyl a rhoi llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gymwys. | |
| Ni ddylech lofnodi'r ffurflen os ydych wedi'ch anghymhwyso rhag sefyll. Sicrhewch eich bod yn darllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar sefyll etholiad. Os nad ydych yn siŵr a allwch sefyll, dylech gysylltu â'ch cyflogwr (lle bo'n berthnasol), darllen y ddeddfwriaeth neu, os oes angen, geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun | |
| Dull o gyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau: yn bersonol â llaw neu'n electronig | |
| **Adran 6 – Llofnod yr ymgeisydd ar y papur enwebu ac ardystiad gan dyst** | |
| Llofnodwch y ddogfen a rhoi dyddiad arni yng ngŵydd tyst. | |
| Gofynnwch i'r tyst lofnodi'r ddogfen a rhoi dyddiad arni (noder y caniateir llofnod electronig ar gyfer enwebiadau a gyflwynir yn electronig) | |
| **Ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd (pob ymgeisydd)** | |
| Ychwanegwch eich enw llawn. | |
| Ychwanegwch eich cyfeiriad cartref yn llawn. | |
| Ychwanegwch eich cyfeiriad cymwys, neu'ch cyfeiriadau cymwys, ar gyfer pob un o'r amodau cymhwyso perthnasol y gwnaethoch eu ticio ar y papur enwebu. . | |
| Ychwanegwch enw llawn a chyfeiriad cartref llawn y person a fydd yn tystio eich papur enwebu. Ni chaiff y ffurflen cyfeiriad cartref ei derbyn heb y wybodaeth hon. | |
| Dylech hefyd gwblhau rhan 2 o'r ffurflen os nad ydych yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref gael ei argraffu ar y papurau pleidleisio, gan roi enw'r ardal berthnasol – sef y sir/y dosbarth/y fwrdeistref yn Llundain y mae eich cyfeiriad cartref ynddo/ynddi – neu, os yw y tu allan i'r DU, y wlad y mae eich cyfeiriad cartref ynddi, a llofnodi'r ffurflen. Dylech gyflwyno rhan 2 o'r ffurflen cyfeiriad cartref gyda'ch papurau enwebu, hyd yn oed os nad ydych yn awyddus i roi eich cyfeiriad cartref ar y papurau pleidleisio. | |
| Dull o gyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau: â llaw neu'n electronig. | |
| Tystysgrif awdurdodi (ymgeiswyr plaid yn unig) | |
| Sicrhewch fod y dystysgrif yn cynnwys enw llawn yr ymgeisydd | |
| Sicrhewch fod y dystysgrif yn caniatáu defnyddio enw neu ddisgrifiad cofrestredig y blaid fel y nodir ar y papur enwebu (neu'n caniatáu i'r ymgeisydd ddewis neu ddefnyddio enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad cofrestredig) | |
| Sicrhewch fod y dystysgrif yn cael ei chyflwyno gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a awdurdodwyd ganddo i'w chyflwyno ar ei ran) a'i bod wedi'i llofnodi gan yr unigolyn hwnnw | |
| Dull o gyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau: â llaw, yn electronig neu drwy'r post | |
| Cais am arwyddlun plaid (ymgeiswyr plaid yn unig) | |
| Ysgrifennwch enw neu ddisgrifiad o arwyddlun a gofrestrwyd gan y blaid ac a gyhoeddwyd ar wefan y Comisiwn Etholiadol | |
| Sicrhewch mai'r ymgeisydd sy'n gwneud y cais | |
| Dull o gyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau: â llaw,  yn electronig neu drwy'r post | |

| Defnydd swyddfa yn unig | Dyddiad derbyn | Amser derbyn | Llythrennau cyntaf | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

1a

# Etholiad llywodraeth leol

# Papur enwebu

| ADRAN 1: MANYLION YR ETHOLIAD | |
|---|---|
| **Ethol cynghorwyr i** | |
| [ehowch enw'r cyngor cymuned] | |
| Ardal etholiadol: | |
| Dyddiad yr etholiad (gweler nodyn 1): | |

| **Adran 2: Manylion personol yr ymgeisydd** | |
|---|---|
| Cyfenwau'r ymgeisydd: | |
| Enwau blaen yr ymgeisydd: | |
| Cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod): | |
| Enwau blaen a ddefnyddir yn gyffredin gan yr ymgeisydd (gweler nodyn 2 isod): | |
| Dyddiad geni'r ymgeisydd: | |

| **Adran 3: Disgrifiad (os oes un)** (gweler nodyn 3 isod) | |
|---|---|
| Disgrifiad | |

| **Adran 4: Datganiad yr ymgeisydd o aelodaeth plaid (gweler nodyn 4 isod)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig unrhyw bryd yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y cyhoeddwyd hysbysiad yr etholiad? | Ydw | | Nac ydw | |

Os ydych wedi ateb “Ydw”, llenwch y tabl isod mewn perthynas â phob plaid wleidyddol gofrestredig rydych chi wedi bod yn aelod ohoni unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwnnw. Ychwanegwch ragor o resi os oes eu hangen. Rhaid ichi lenwi'r tabl hyd yn oed os yw'r blaid wedi peidio â bod neu os nad yw'n blaid wleidyddol gofrestredig mwyach.

Does dim angen llenwi'r tabl os ydych wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir yn adran 3 o'r ffurflen hon ac nad ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y cyfnod o 12 mis heblaw'r blaid neu'r pleidiau y mae'r disgrifiad yn ymwneud â hi neu â nhw.

Gofalwch sicrhau bod yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn gywir. Mae Rheol 13 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog

| | |
|---|---|
| canlyniadau gynnwys yr wybodaeth hon yn y datganiad o'r personau a enwebwyd, ac mae hwnnw'n cael ei gyhoeddi. | |
| Enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol gofrestredig | Y dyddiadau yn ystod y cyfnod o 12 mis pan oeddech chi'n aelod (gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb i dd/mm/bbbb) |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Adran 5: Datganiadau** (gweler nodyn 5) | |
| **Cwblhewch a ganlyn a'u llofnodi.**<br>Rwyf yn datgan fy mod yn gymwys ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf yn gymwys ar ddiwrnod yr etholiad, i gael fy ethol yn gynghorydd ar y sail fy mod i ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn, ac y byddaf fi ar ddiwrnod yr etholiad, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol o'r Undeb neu'n ddinesydd tramor cymwys sydd wedi cyrraedd 18 oed ac—* | |
| (a) fy mod wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] ar y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf yn dal i fod felly ar ddiwrnod yr etholiad; | |
| b) fy mod wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi meddiannu fel perchennog neu denant dir neu fangre arall yn yr ardal honno yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad; | |
| c) bod fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn wedi bod yn ardal [rhowch enw'r cyngor cymuned] ac y bydd fy mhrif weithle neu fy unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal honno; | |
| d) fy mod wedi preswylio yn [rhowch enw'r gymuned] neu o fewn tair milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn y diwrnod yr wyf yn cwblhau'r papur enwebu hwn ac y byddaf wedi preswylio yn y gymuned honno neu o fewn tair milltir iddi yn ystod y cyfnod cyfan o 12 mis cyn diwrnod yr etholiad. | |
| *Dylai'r ymgeiswyr nodi pa un neu ragor o baragraffau (a) i (d) sy'n gymwys iddynt drwy dicio'r rhai sy'n gymwys a thynnu llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gymwys.<br><br>Rwyf hefyd yn datgan nad wyf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, wedi fy anghymhwyso rhag cael fy ethol yn gynghorydd oherwydd unrhyw anghymhwysiad a nodir yn adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw benderfyniad a wnaed o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad oes gennyf swydd a gyfyngir yn wleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, o dan awdurdod lleol, o fewn ystyr y Rhan honno. | |
| Llofnod yr ymgeisydd i'r datganiadau: | |
| Dyddiad y llofnod: | |

| Adran 6: Llofnod yr ymgeisydd i’r papur enwebu ac ardystiad tyst | |
|---|---|
| Llofnod yr ymgeisydd: | |
| Dyddiad y llofnod: | |
| Llofnodwyd ym mhresenoldeb tyst: [Enw'r tyst] | |
| Llofnod y tyst: | |

**Nodiadau ar ffurf y papur enwebu**

Nodyn 1: Y dyddiad y cynhelir y bleidlais yw’r dyddiad sydd i’w roi yma.

Nodyn 2: Os yw ymgeisydd yn defnyddio’n gyffredin enwau blaen neu gyfenwau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r enwau blaen neu'r cyfenwau a roddir yn rhan gyntaf adran 2, caniateir rhoi’r enwau blaen neu’r cyfenwau'r a ddefnyddir yn gyffredin gan yr gymgeisydd yn y lle priodol yn ail ran adran 2 os yw’r ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys achosion lle y gwahaniaeth yw bod yr enwau blaen neu'r cyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn trefn wahanol, yn cynnwys rhai o'r enwau yn unig neu'n cynnwys enwau ychwanegol (ond nid yw’n gyfyngedig i hynny). Pan roddir enwau blaen neu gyfenwau a ddefnyddir yn gyffredin, bydd yr enwau hynny’n ymddangos fel arfer yn y datganiad o’r personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio (yn lle unrhyw enwau eraill). Ceir amgylchiadau lle caiff y swyddog canlyniadau wrthod defnyddio'r enwau a ddefnyddir yn gyffredin ac mae'r rhain wedi eu nodi yn rheol 14 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 3: Yr unig ddisgrifiadau y caniateir eu rhoi yw (a) disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr i gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig neu â dwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac a ganiateir o dan reol 6 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (“disgrifiad plaid a ganiateir”), neu (b) y gair “Independent” neu’r gair “Annibynnol”, neu'r ddau air hynny.

O dan amgylchiadau penodol, caiff ymgeisydd sy'n defnyddio disgrifiad plaid a ganiateir ychwanegu'r gair “Wales”, “Welsh”, “Cymru” neu “Cymreig” at y disgrifiad. Nodir yr amgylchiadau hynny yn rheol 7 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 4: Nodir y gofynion ynglŷn â datganiadau o aelodaeth plaid yn rheol 8 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Nodyn 5: Mae'r datganiad cyntaf yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adran honno’n diffinio “qualifying Commonwealth citizen”, “relevant citizen of the Union” a “qualifying foreign citizen”.

Nodyn 6: Pan ddanfonir y papur enwebu, rhaid cael ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyd-fynd ag ef, sef ffurflen y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â rheol 9 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

| 1b – Ffurflen cyfeiriad cartref | At ddefnydd swyddfa yn unig |
|---|---|

| ADRAN 1: MANYLION YR ETHOLIAD | |
|---|---|
| ETHOL CYNGHORWYR ar gyfer | |
| [nodwch enw'r cyngor cymuned] | |
| Ardal etholiadol: | |
| Dyddiad yr etholiad: | |

Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhan 1

Dim ond os na fyddwch yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi y dylech gwblhau Rhan 2

| **Rhan 1: I'w chwblhau gan bob ymgeisydd** | |
|---|---|
| **Enw llawn yr ymgeisydd** | |
| **Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin (os o gwbl) (rhaid ei ychwanegu os yw wedi'i gynnwys ar y papur enwebu)** | |
| **Enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin (os o gwbl) (rhaid ei ychwanegu os yw wedi'i gynnwys ar y papur enwebu)** | |
| **Cyfeiriad cartref (yn llawn)** | |

| **Cyfeiriad cymwys: Ychwanegwch eich cyfeiriad cymwys, neu'ch cyfeiriadau cymwys, yn llawn (yn y bwlch a ddarperir) sy'n gysylltiedig â'r amod(au) cymhwyso a ddewiswyd gennych ar eich papur enwebu (gallwch gwblhau mwy nag un amod cymhwyso).** | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ddewisir ar y papur enwebu** | **Y cymhwyso y mae cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd yn gysylltiedig ag ef** | **Cyfeiriad cymwys yr ymgeisydd** |
| *Opsiwn (a)* | *Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (a) (cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y cyngor cymuned)* | *Y cyfeiriad llawn lle y mae'r ymgeisydd wedi ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol mewn cysylltiad ag ef* |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| *Opsiwn (b)* | *Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (b) (meddiannu tir neu fangre arall yn ardal y cyngor cymuned fel perchennog neu denant)* | *Disgrifiad a chyfeiriad y tir neu'r fangre y mae'r ymgeisydd wedi eu meddiannu fel perchennog neu denant (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un meddiant i fodloni'r cymhwyster, y disgrifiadau a'r cyfeiriadau)* |
| | | |
| *Opsiwn (c)* | *Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (c) (prif neu unig weithle yn ardal y cyngor cymuned)* | *Cyfeiriad gweithle'r ymgeisydd (neu, os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar fwy nag un gweithle i fodloni'r cymhwyster, y cyfeiriadau)* |
| | | |
| *Opsiwn (d)* | *Y cymhwyster a ddisgrifir yn opsiwn (d) (preswylio yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi)* | *Y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau llawn lle mae'r ymgeisydd wedi preswylio* |
| | | |

| **Manylion tyst** | |
|---|---|
| **Enw llawn y sawl sydd wedi tystio llofnod yr ymgeisydd ar y ffurflen enwebu** | |
| **Cyfeiriad cartref llawn y sawl sydd wedi tystio llofnod yr ymgeisydd ar y ffurflen enwebu** | |

## Rhan 2: Dim ond os na fyddwch yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi y dylech gwblhau'r rhan hon.

**Noder: Dylech gyflwyno'r rhan hon (rhan 2) o'r ffurflen cyfeiriad cartref gyda'ch papurau enwebu, hyd yn oed os ydych yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref fod yn gyhoeddus.**

1b

| | | |
|---|---|---|
| **Os na fyddwch yn awyddus i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi yna ni fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, yr hysbysiad etholiad na'r papur pleidleisio. Yn hytrach, bydd enw'r ardal berthnasol y mae eich cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad, os yw'r tu allan i'r DU), fel yr esbonnir isod, yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, yr hysbysiad etholiad a'r papurau pleidleisio.** | | |
| **Datganiad: Nid wyf yn awyddus i'm cyfeiriad cartref fod yn gyhoeddus** | | |
| **Yr ardal berthnasol y mae fy nghyfeiriad cartref ynddi:** | **(nodwch enw'r ardal berthnasol)**[2] | |
| **NEU** | | |
| **Lleolir fy nghyfeiriad cartref y tu allan i'r DU. Lleolir fy nghyfeiriad cartref yn:** | **(nodwch enw'r wlad)** | |
| **Llofnod yr ymgeisydd (dim ond os yw Rhan 2 uchod wedi cael ei chwblhau y mae angen hwn)** | | |
| **Llofnod yr ymgeisydd:** | | |

---

[2] enw'r "ardal berthnasol" y mae eich cyfeiriad cartref ynddi (os yw eich cyfeiriad cartref yn y DU)

- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yng Nghymru:**
  - os yw'r cyfeiriad mewn sir, y sir honno;
  - os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref sirol, y fwrdeistref sirol honno
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yn Lloegr:**
  - os yw'r cyfeiriad mewn dosbarth lle mae cyngor dosbarth, y dosbarth hwnnw;
  - os yw'r cyfeiriad mewn sir lle nad oes dosbarthau sydd â chynghorau, y sir honno;
  - os yw'r cyfeiriad yn un o fwrdeistrefi Llundain, y fwrdeistref honno yn Llundain;
  - os yw'r cyfeiriad yn Ninas Llundain (gan gynnwys y Deml Fewnol a'r Deml Ganol), Dinas Llundain;
  - os yw'r cyfeiriad yn Ynysoedd Scilly, Ynysoedd Scilly
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yn yr Alban:**
  - yr ardal llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad ynddi
- **Ar gyfer cyfeiriadau cartref yng Ngogledd Iwerddon:**
  - y dosbarth llywodraeth leol y mae'r cyfeiriad ynddo

**Noder: Dylid rhoi'r ardal berthnasol yn y fformat a ddisgrifir uchod ac nid y ward na'r gymuned, ac ni ddylid rhoi enw llawn yr awdurdod lleol ychwaith**

| Defnydd swyddfa yn unig | Dyddiad derbyn | Amser derbyn | Llythrennau cyntaf | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| 2 | Etholiad llywodraeth leol | Tystysgrif awdurdodi |
|---|---|---|

I gyd-fynd ag enwebu ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig. (Noder: os yw ymgeiswyr yn sefyll ar ran dwy blaid neu fwy, bydd angen iddynt gael tystysgrif gan bob plaid).

Rhaid i'r dystysgrif hon gael ei rhoi gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i'w llofnodi ar ei ran.

Mae'r dystysgrif hon yn awdurdodi'r ymgeisydd i ddefnyddio disgrifiad cofrestredig penodol neu enw'r blaid fel y'u cofrestrir â'r Comisiwn Etholiadol, neu i ddefnyddio unrhyw ddisgrifiad cofrestredig neu enw'r blaid fel y'u cofrestrir â'r Comisiwn Etholiadol.

Yna gall y disgrifiad neu enw'r blaid a awdurdodwyd gael ei gynnwys gan yr ymgeisydd ar y ffurflen enwebu. Dyma fydd yn ymddangos fel ei ddisgrifiad ar y papur pleidleisio. Rhestrir enwau pleidiau a disgrifiadau cofrestredig ar wefan y Comisiwn Etholiadol (http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg).

| **Manylion ymgeisydd i'w awdurdodi a'r disgrifiad/enw plaid a ganiateir** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r ward:** | | Dyddiad yr etholiad: | |
| **Yr ymgeisydd (enw yn llawn):** | | | |
| **Enw'r blaid wleidyddol:** | Plaid wleidyddol wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Etholiadol | | |
| **Yr wyf, drwy hyn, yn ardystio y caiff yr ymgeisydd gynnwys y disgrifiad cofrestredig neu'r enw plaid canlynol ar ei ffurflen enwebu:** | | | |
| Noder: mae'n drosedd llofnodi'r ffurflen hon os nad chi yw swyddog enwebu cofrestredig y blaid neu nad ydych wedi'ch awdurdodi i wneud hynny gan swyddog enwebu cofrestredig y blaid | | | |
| **Llofnod Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid (neu unigolyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu cofrestredig):** | | | |
| **Enw'r unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen:** | | | |
| **Dyddiad:** | | | |

Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

| Defnydd swyddfa yn unig | Dyddiad derbyn | Amser derbyn | Llythrennau cyntaf | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

3

# Etholiad llywodraeth leol

# Cais am arwyddlun plaid

Mae'r ffurflen hon ar gyfer ymgeisydd plaid wleidyddol sy'n destun tystysgrif awdurdodi ac sydd am i arwyddlun plaid gael ei argraffu ar y papur pleidleisio wrth ymyl ei enw.

Rhestrir arwyddluniau pleidiau ar wefan y Comisiwn Etholiadol (http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg).

**Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan yr ymgeisydd.**

| **Cais ymgeisydd i ddefnyddio arwyddlun** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r ward:** | | Dyddiad yr etholiad: | |
| **Enw'r ymgeisydd yn llawn:** | | | |
| Hoffwn i'r papur pleidleisio gynnwys, yn erbyn fy enw, yr arwyddlun cofrestredig canlynol (nodwch pa un os yw'r blaid wedi cofrestru mwy nag un): | | | |
| **Arwyddlun i'w ddefnyddio (Defnyddiwch yr enw neu'r disgrifiad fel y mae'n ymddangos ar wefan y Comisiwn Etholiadol):** | | | |
| **Llofnod yr ymgeisydd:** | | | |
| **Dyddiad:** | | | |

Dim ond os caiff y ffurflen hon ei chyflwyno ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm fan bellaf ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau y bydd yn effeithiol.

Caiff ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran mwy nag un blaid wleidyddol ac sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd ddewis un arwyddlun o un o'r pleidiau rydych yn sefyll ar eu rhan. Nodwch enw'r blaid ac enw'r arwyddlun yn y blwch 'Arwyddlun i'w ddefnyddio' uchod.